OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 834

# Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2000

**Amodau talu grantiau**

**11.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol fynnu i unrhyw awdurdod addysg ddirprwyo penderfyniadau ynghylch gwario–

(a) grant, a

(b) symiau a ddyrennir gan yr awdurdod i gwrdd â gwariant a ragnodwyd ac a gymeradwywyd yn unol â rheoliad 3,

i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu tynnu'n ôl neu, ar ôl ymgynghori â'r awdurdod addysg, amrywio gofynion y penderfynir arnynt yn unol â'r rheoliad hwn.